Ysgol Gyfun Gymraeg Bryn Tawe
ENNILL LLWYR YW ENNILL IAITH

23/1/2014

Annwyl rhiant/gwarcheidwad,

Fel rydych chi'n gwybod, mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn gwneud newidiadau eithaf sylweddol i'r system addysg yng Nghymru. Y newid cyntaf oedd y profion darllen a rhifedd safodd pob disgybl o flwyddyn 2 i flwyddyn 9 yn ystod tymor yr haf diwethaf. Yr ail newid mawr yw'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd newydd, efallai rydych chi wedi clywed sôn amdano yn y wasg yn ddiweddar.

Mae'r Fframwaith yn offer cynllunio sy'n adeiladu ar y gwaith rydym ni wedi bod yn gwneud i godi safonau llythrennedd a rhifedd dros y blynyddoedd diwethaf ac sy'n datgan y safonau dylen ni fel athrawon yn helpu'n disgyblion cyrraedd. Mae'r Fframwaith wedi bod yn rhan statudol o'r cwricwlwm ers mis Medi eleni, a mae'r ysgol wrthi ar hyn o bryd yn diwygio'r cwricwlwm i gwrdd â'r disgwyliadau newydd sy yn y Fframwaith.

Byddwn ni'n defnyddio disgwyliadau'r Fframwaith i osod gwaith sy'n gwella sgiliau llythrennedd a rhifedd pob disgybl. Mae'r Fframwaith yn rhoi blaenoriaeth ar godi safonau yn y sgiliau hanfodol hyn, ond dydy e ddim yn disodli'r sgiliau yn y Cwricwlwm Cenedlaethol, felly ni fydd llawer o newid yn cynnwys gwersi nac yn beth mae eich plentyn yn ei ddysgu.

Bydden ni hefyd yn defnyddio'r Fframwaith ar gyfer asesu cynnydd disgyblion yn y sgiliau hyn. Gan gymharu gwaith disgybl yn erbyn disgwyliadau'r Fframwaith, byddwn ni'n gallu gosod targedau sy'n eu cynorthwyo nhw i godi'i safonau llythrennedd a rhifedd. O'r flwyddyn academaidd 2014/15 bydd dyletswydd statudol arnom adrodd i chi ar gynnydd eich plentyn yn llythrennedd a rhifedd wedi'i fesur yn erbyn y Fframwaith.

Bydd cyfle i chi drafod cynnydd eich plentyn fel arfer mewn nosweithiau rhieni, lle cewch chi gyfle gofyn unrhyw cwestiynau sy gyda chi ynglŷn â'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd a cynlluniau'r ysgol i'w weithredu pryd hynny. Yn y cyfamser, mae'n bosib gweld y Fframwaith gan ymweld â:

http://learning.wales.gov.uk/resources/nlnf/?skip=1&lang=cy

Yr eiddoch yn gywir,

G. J. Daniels

Graham J Daniels
Pennaeth